

# **Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficro-Fusnesau**

Ionawr 2012

---

# Crynodeb Gweithredol

---

Mae aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficro-Fusnesau wedi dangos ymrwymiad a brwdfrydedd gwirioneddol yn y mater hwn. Rydym wedi cydnabod bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn hynod bwysig a mentrus, yn gywir felly, gan fod y sector micro-fusnesau yn rhan hanfodol, ddeinamig ac annatod o lwyddiant economi Cymru ac mae ganddo'r potensial i fod yn rym gwirioneddol i adfer yr economi.

Mae'r ffaith mai micro-fusnesau oedd 94.5% neu 193,010 o holl fusnesau Cymru yn 2011 yn dangos pwysigrwydd creu'r diwylliant, yr amgylchedd a'r amodau iawn, gan gynnwys cysylltedd a seilwaith, er mwyn iddynt dyfu er lles economi Cymru, mae micro-fusnesau yn creu 33.2 y cant o gyflogaeth y sector preifat. Diffinir micro-fusnesau fel rhai sy'n cyflogi llai na 9 o bobl. Mae hyrwyddo a meithrin micro-fusnesau fel rhan hanfodol o economi a chymunedau Cymru yn hanfodol i ddatblygu diwylliant sy'n hybu menter yng Nghymru.

Mae'n amlwg o'r gwaith a wnaed bod y gweithdrefnau cymorth sydd yn eu lle ar gyfer micro-fusnesau yng Nghymru wedi bod yn gymhleth yn hanesyddol, yn anhwylyd ac yn cael eu dyblygu'n aml gan ddarparwyr cefnogaeth busnes. Hefyd, mae'r system cymorth busnes yng Nghymru wedi wynebu sawl newid dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n ei gwneud yn anodd cynllunio a chynnal amgylchedd sy'n creu'r amodau iawn i ficro-fusnesau ffynnu. Rydym yn argymhell felly y dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar y cyngor yn y ddogfen hon i lunio polisi i gefnogi ymrwymiad hirdymor i roi sefydlogrwydd a ffocws.

Efallai bod daearyddiaeth Cymru yn golygu bod yna economi drefol ac economi wledig, ond cymuned fach yw hi. Mae'n hanfodol felly fod sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â micro-fusnesau. Wrth nodi pwysigrwydd cydweithio, rydym hefyd o'r farn mai hwyluso yw rôl Llywodraeth Cymru a grymuso'r sector preifat, er mwyn cryfhau economi Cymru, yn hytrach na chyflawni.

Rydym o'r farn bod potensial micro-fusnesau yn aruthrol, o ran cynnal, gwella a chynyddu eu cyfraniad i'w cymunedau, yr economi a bywyd Cymru.

Rydym wedi nodi pum prif flaenoriaeth ynghyd ag argymhellion i helpu i ddatblygu polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru o ran micro-fusnesau. Dyma ein blaenoriaethau a'n hargymhellion:

## **Blaenoriaeth: Ymwybyddiaeth o Wwasanaethau Cymorth Busnes Ymhlith Micro-Fusnesau a sut i gael gafael arnynt**

- Symleiddio'r system a lleihau nifer y darparwyr cymorth busnes sydd yna o fewn y sector cyhoeddus.
- Mynd ati i helpu micro-fusnesau i gael gafael ar y gwasanaethau cymorth busnes a dod yn fwy ymwybodol ohonynt.
- Creu un ffordd gydnabyddedig o gael gafael ar gymorth busnes (cyhoeddus/preifat).

- 
- Datblygu rhwydwaith o 'Siopau Un Stop' i ficro-fusnesau dderbyn cymorth uniongyrchol/anuniongyrchol ledled Cymru.
  - Ehangu'r Gwasanaeth Canolfannau Rhanbarthol presennol i greu Siop Un Stop i ficro-fusnesau yng Nghymru.

### **Blaenoriaeth: Mynediad at Gyllid**

- Hwyluso'r ffordd i gynnig £1,000 – £20,000 i ficro-fusnesau mewn ffordd syml, yn ôl lefel y buddsoddiad sy'n ofynnol.
- Helpu micro-fusnesau i gael gwybod am opsiynau cyllid.

### **Blaenoriaeth: Mentora a Hyfforddiant**

- Datblygu cynllun mentora a hyfforddi ar gyfer Cymru gyfan i helpu micro-fusnesau.

### **Blaenoriaeth: Caffael o fewn y Sector Cyhoeddus**

- Symleiddio prosesau a rheoliadau caffael y sector cyhoeddus.
- Cyflwyno bil yng Nghymru ar Gaffael yn y Sector Cyhoeddus.
- Penodi Comisiwn/Comisiynydd Caffael yng Nghymru.
- Hybu caffael ar lefel leol yn y sector cyhoeddus.
- Annog micro-fusnesau i ystyried gweithredu drwy gonsortia i gaffael yn y sector cyhoeddus.
- Contractau llai i ddenu tendrau gan ficro-fusnesau.

### **Blaenoriaeth: Baich Rheoliadol**

- Lobio dros newid mewn materion nad ydynt wedi'u datganoli – yn ogystal â rheoliadau sy'n effeithio ar ficro-fusnesau.
- Nodi pwy sy'n gyfrifol am y baich rheoliadol.
- Symleiddio rheoliadau o fewn Llywodraeth Cymru (ar draws pob adran) i'w gwneud yn haws i ficro-fusnesau gynnal a datblygu eu busnes.
- Cynnig cymorth i ficro-fusnesau y mae rheoliadau yn effeithio ar eu busnes, ee iechyd a diogelwch, hurio staff a chynllunio.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi manylion blaenoriaethau eraill i'w hystyried.

Rydym o'r farn bod yna botensial i fwy o ficro-fusnesau yng Nghymru, a thrwy greu'r diwylliant, yr amgylchedd a'r amodau iawn, y bydd hyn yn ein rhoi ar ben ffordd tuag at ddatblygiad a thwf economaidd.

### **Robert Lloyd Griffiths,**

Cadeirdydd, Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficro-Fusnesau

# Cyflwyniad

---

Paratowyd yr Adroddiad ar Ficro-Fusnesau yng Nghymru gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficro-Fusnesau (y Grŵp), o dan Gadeiryddiaeth Robert Lloyd Griffiths, Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a'i aelodau:

- Allan Lloyd, Treasure, y Mwmbwls
- David Russ, Siambr Fasnach De Cymru
- Janet Jones, Ffederasiwn Busnesau Bach
- Jacque Williams, SCS Aftercare, Sain Ffagan
- Peter Denton, Williams Denton Cyf, Conwy
- Robert Chapman, Robert Chapman and Company, Caerdydd
- Sue Balsom, Francis Balsom Associates (FBA) Aberystwyth

Pwrpas y ddogfen yw rhoi cyngor ac argymhellion i'r Gweinidog ar ddatblygu a gweithredu polisi a strategaeth ar Ficro-Fusnesau.

## *Dull Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen*

---

Wrth baratoi'r adroddiad, mae'r grŵp wedi defnyddio ei arbenigedd a'i brofiad, ynghyd â thystiolaeth o arferion gorau a gwerthusiadau, er enghraifft:

- Dadansoddiad economaidd
- Adolygiad o arferion da rhyngwladol
- Adolygiad o lenyddiaeth
- Casglu safbwyntiau micro-fusnesau
- Casglu safbwyntiau rhanddeiliaid pwysig

## *Gweledigaeth yr Adroddiad ar Ficro-Fusnesau*

---

Yr weledigaeth yw creu'r diwylliant, yr amgylchedd a'r amodau iawn i ficro-fusnesau yng Nghymru allu bod yn gynaliadwy a gallu tyfu er lles economi Cymru drwy fod yn fwy cynhyrchiol ac arloesol a chreu mwy o swyddi.

# Cyd-destun y Polisi

---

## *Cyd-destun Economaidd y DU*

---

Mae'r data economaidd diweddaraf yn dangos perfformiad economaidd gwan, yn y farchnad lafur yn ddiddorol iawn. Y farchnad lafur yw'r ffordd fwyaf amserol a chynhwysfawr o gael gwybod am berfformiad economaidd Cymru. Fel gweddill y DU, gostyngodd lefel cyflogaeth ddiwedd 2011 ac mae diweithdra wedi cynyddu.

Paratowyd rhagolygon economaidd y DU, a gynhwyswyd yn Natganiad Hydref Trysorlys Ei Mawrhydi, gan y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau. Mae'r rhagolygon o ran cynnydd mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) wedi'u diwygio o 1.7 y cant i 0.9 y cant ar gyfer 2011, yn bennaf yn sgil pwysau chwyddiant ar incwm cartrefi a gwariant cwsmeriaid.

Mae disgwyl i'r sefyllfa wella ychydig yn ystod ail hanner 2012. O ystyried 2012 ar ei hyd, mae disgwyl i CMC dyfu 0.7 y cant. Ar ôl 2012, disgwylir i bethau wella ar lefel y DU, ac y bydd CMC wedi cyrraedd 3 y cant erbyn 2015. Mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd yr ewro'n dod drwy argyfwng dyled Ewrop yn ddianaf ac y bydd y sefyllfa o ran y ddyled ei hun yn un resymol.

Yn ddiweddar, mae sefydliadau economaidd eraill hefyd wedi diwygio'u rhagolygon o ran twf economi'r DU, a hynny er gwaeth. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn disgwyl i'r economi lithro'n ôl i ddirwasgiad am gyfnod byr, ac y bydd hynny'n dechrau yn ystod y chwarter hwn. Ni ddisgwylir i bethau ailgydio tan hydref 2012. O ran 2012 ar ei hyd, disgwylir i'r CMC gynyddu 0.5 y cant. Yn gynnar yn 2011, roedd yr OECD yn disgwyl twf o 1.8 y cant. Yn Tachwedd 2011, diwygiodd Banc Lloegr hefyd ei ragolwg ar gyfer twf CMC y DU yn 2012 yn sylweddol.

Ynghyd â disgwyliadau gwahanol ynghylch twf yn y DU, mae'r rhagolygon ar gyfer y farchnad lafur hefyd yn llai ffafriol. Mae disgwyl i ddiweithdra yn y DU gynyddu o'r lefel bresennol, sef 8.3 y cant, i 8.7 y cant yn ystod pedwerydd chwarter 2012, cyn dod yn ôl i lawr i 6.2 y cant yn 2016.

Ond mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl i ficro-fusnesau wneud arian a thyfu, hyd yn oed mewn hinsawdd economaidd anodd.

---

## *Cyd-destun Polisi Llywodraeth Cymru*

---


Fel y mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ei nodi, mae Cymru yn wynebu cryn heriau economaidd yn ystod y blynyddoedd i ddod, a swyddi a'r economi yw'r prif flaenoriaethau. Yn unol â'r cefndir uchod, y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar economi Cymru yn y tymor byr i'r tymor canolig yw cyflwr yr economi byd-eang a pholisi ariannol Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i helpu i roi busnesau Cymru mewn sefyllfa i wynebu'r amodau economaidd anodd sydd o'n blaenau.

Mae blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu wedi'u hystyried fel rhan o waith y Grŵp a, lle bo'n gymwys, maent wedi'u nodi o dan yr adran Blaenoriaethau.

# Dadansoddiad o Ficro-Fusnesau


Mae'r wybodaeth isod yn rhoi brasolwg o'r sefyllfa o ran micro-fusnesau yng Nghymru yn 2011, ac mae atodiad 1 yn nodi manylion micro-fusnesau yng Nghymru ym mhob Awdurdod Lleol a Sector.

Yn 2011 roedd yna 204,280 o fusnesau gweithredol yng Nghymru, ac roedd 193,010 (94.5 y cant) ohonynt yn cyflogi llai na 9 o bobl; sef cyfran lai nag yn y DU lle 95.7 y cant yw'r ffigur.



Ffig 1 – Brasolwg o'r busnesau gweithredol yn ôl maint. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2011.

Mae twf micro-fusnesau yng Nghymru rhwng 2003 a 2006 wedi bod yn debyg i'r hyn a welwyd yng ngweddill y DU, ond ers 2007, mae twf micro-fentrau yng Nghymru wedi bod ar lefel is nag yng ngweddill y DU. Dylai Cymru anelu at yr un lefel twf â'r DU.



Ffig 2 – Micro-Fusnesau rhwng 2003 a 2006 [2003=100]. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2011. DS \*Yn sgil gwella system amcangyfrif y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, cynyddodd y lefel rhwng 2007 a 2008.


---

Mae dwy ffordd y gall y sector micro-fusnesau dyfu:

- Mwy o fusnesau newydd na'r rheini sy'n cau.
- Twf busnesau sydd eisoes yn bod.

Mae busnesau newydd yn bwysig, ond yn aml mae twf busnesau sydd wedi'u sefydlu eisoes yn fwy cynaliadwy, felly mae angen rhoi'r un anogaeth i hynny hefyd. Ac mae sicrhau parhad ac olyniaeth yn hanfodol i ddiogelu swyddi.


Hyd yn oed o ystyried y duedd yn ffigur 2 yng Nghymru, mae micro-fusnesau yn creu 33.2 y cant o gyflogaeth y sector preifat (331,400) – sy'n gyfran uwch nag yn y DU lle 31.4 y cant yw'r ffigur. Mae hyn yn rhywbeth hollbwysig y dylai Cymru geisio'i ddiogelu.



Ffig 3 – Cyflogaeth yn ôl maint y busnes. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2011.


Rhwng 2003 a 2009, mae lefel twf cyflogaeth mewn micro-fusnesau yng Nghymru wedi codi'n uwch na lefel y DU. Ond o 2010, syrthiodd lefel twf cyflogaeth ym micro-fusnesau Cymru ryw 1 y cant, rhywbeth na welwyd ar lefel y DU.





Ffig 4 – Cyflogaeth mewn Micro-Fusnesau Gweithredol: Cymru a'r DU – 2003 – 2011 [2003=100]. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2011. DS \* Yn sgil gwella system amcangyfrif y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, cynyddodd y lefel rhwng 2007 a 2008.

Yng Nghymru, micro-fusnesau sy'n creu 16.8 y cant o'r trosiant – sef cyfran lai nag yn y DU lle 18.4 y cant yw'r ffigur.



Ffig 5 – Trosiant yn ôl Maint y Busnes. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2011.

# Egwyddorion Canllaw

---

Dylai fod yn amcan i Lywodraeth Cymru greu fframwaith cyffredinol i'w gwneud yn bosibl cynnal a datblygu micro-fusnesau yng Nghymru. Dylid gweithredu'r fframwaith hwn drwy gydgyssylltu effeithiol rhwng adrannau a sefydliadau. Mae'r egwyddorion a'r rhagdybiaethau canlynol yn sail i'r adroddiad:

1. Diffinnir micro-fusnes fel menter sy'n cyflogi hyd at naw o weithwyr (mae'n cynnwys unig fasnachwyr);
2. Dylai'r fframwaith i ficro-fusnesau fod yn ymrwymiad hirdymor i roi sefydlogrwydd a chymorth â ffocws. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid adolygu'r fframwaith bob pum mlynedd;
3. Hwyluso a galluogi yw rôl y Llywodraeth yn hytrach na chyflawni uniongyrchol, gan mai yn y sector preifat mae'r arbenigedd ac mai hwy yn aml sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor a chyfarwyddyd i ficro-fusnesau;
4. Dylai'r Llywodraeth chwarae rôl o ran dylanwadu a hybu cydweithio yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â micro-fusnesau;
5. Mae pob micro-fusnes yn unigryw;
6. Dylid ystyried ansawdd, nid ystadegau, wrth roi cymorth;
7. Dylai fod yn hawdd i ficro-fusnesau yng Nghymru gael gafael ar gymorth, a dylai'r gweithdrefnau fod yn glir a syml;
8. Dylid gweithredu'r fframwaith i ficro-fusnesau ar lefel Cymru gyfan, gan roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd;
9. Mae'n hanfodol pennu amcanion mesuradwy clir ar gyfer polisiau sy'n cefnogi micro-fusnesau;
10. Dylid hyrwyddo a meithrin micro-fusnesau fel rhan hanfodol o economi a chymunedau Cymru.

# Blaenoriaethau

---

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficro-Fusnesau yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bum prif flaenoriaeth i gynnal a datblygu micro-fusnesau yng Nghymru, sef:

- Ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth busnes a sut i gael gafael arnynt
- Mynediad at Gyllid
- Mentora a Hyfforddiant
- Caffael o fewn y Sector Cyhoeddus
- Baich Rheoliadol

Dylid gweithredu drwy frand syml, effeithiol sy'n cael blaenoriaeth ar gontractwyr cyflenwi, gan fod rhai o'r blaenoriaethau hyn yn gorgyffwrdd.

## *Blaenoriaeth: Ymwybyddiaeth o Wasanaethau Cymorth Busnes a sut i gael gafael arnynt*

---

Ar hyn o bryd, mae cryn ddryswch ymhlith busnesau yng Nghymru o ran pwys ynnig cymorth busnes, beth sydd ar gael a sut i gael gafael ar y cymorth perthnasol. Yn hanesyddol, mae yna dystiolaeth o ddyblygu (a chystadlu hyd yn oed) o ran sut a lle mae'r sector cyhoeddus yn cynnig cymorth i fusnesau. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a Sefydliadau Academaidd yn ogystal â lluo o fentrau a phrosiectau a gyllidir gan yr UE.

Nododd y Grŵp hefyd fod y sector cyhoeddus, mewn sawl achos, yn dyblygu ac yn disodli rhai gwasanaethau cynghori busnes a gynigir gan y sector preifat, lle mae yna gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd ymhlith gweithwyr proffesiynol yng Nghymru. Mae'n bwysig, felly, fod y ddarpariaeth yn helpu i hwyluso'r ffordd i wasanaethau proffesiynol lleol o fewn y Sector Preifat yn y dyfodol.

Yn Arolwg Omnibws Hydref 2011 o Fusnesau, pan ymatebodd micro-fusnesau i'r cwestiwn i ble y byddent yn mynd am gymorth busnes, nodwyd amrywiaeth eang o ddulliau a sefydliadau – o'r rhyngryd, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gyfrifwyr, banciau ac Undeb Amaethwyr Cymru.

Nododd Arolwg o Fusnesau Bach 2010 fod 28 y cant o gyflogwyr mewn mentrau bach a chanolig yn cytuno ei bod yn hawdd cael gafael ar wasanaethau'r Llywodraeth ac roedd 47 y cant yn cytuno yr hoffent gael cymorth gan y Llywodraeth ond eu bod yn ei chael yn anodd gwybod beth sydd ar gael.

Mae gweithdrefnau cymorth busnes hwylus, anghymhleth, sy'n cyflawni'r amcan yn allweddol i ficro-fusnesau, a gall gynnwys cymorth uniongyrchol a chymorth anuniongyrchol a phorth gwybodaeth i adnoddau allanol. Mae'n well gan ficro-fusnesau hefyd gymorth personol wyneb-yn-wyneb. Fodd bynnag, daeth y Grŵp i'r casgliad na fyddai angen y lefel hon o gymorth ar bob micro-fusnes, ac felly

---

na ddylid cynnig yr un peth i bawb, ond y dylid cael proses/system i sicrhau bod micro-fusnesau yn deall sut i gael gafael ar y cymorth pe bai ei angen arnynt.

**Un o'r prif bwyntiau a nodwyd fel rhan o'r adolygiad rhyngwladol o arferion da yw bod angen i bolisiau a gweithdrefnau i helpu micro-fusnesau fod wedi'u cydgysylltu'n dda, yn hawdd eu deall ac yn hwylus cael gafael arnynt.**

Yn aml caiff asiantaethau cymorth eu beirniadu am ddarparu'r hyn sydd ei angen ar y Llywodraeth yn hytrach na'r hyn sydd ei angen ar fusnesau. Wrth fesur llwyddiant cymorth, fel rheol mae asiantaethau cymorth busnes yn canolbwyntio ar a yw'r gwasanaethau yn gydgysylltiedig, o safon ac yn hwylus i'w defnyddio. Ond mae busnesau yn seilio eu llwyddiant ar a yw'r gwasanaeth wedi cyflawni'r hyn a ddisgwylid. Mae hyn yn awgrymu nad oes digon o ymdrech yn mynd i mewn i reoli disgwyladau – sy'n arbennig o bwysig yn achos micro-fusnesau amhrofiadol. Wrth weithredu ar unrhyw argymhelliad, dylai'r Llywodraeth ganolbwyntio ar ddisgwyladau'r busnes, eu rheoli ac yna gwerthuso profiadau'r cleient.

**Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Symleiddio'r system a lleihau nifer y darparwyr cymorth i ficro-fusnesau sydd yna o fewn y sector cyhoeddus.
- Mynd ati i helpu micro-fusnesau i gael gafael ar y gwasanaethau cymorth busnes a dod yn fwy ymwybodol ohonynt.
- Creu un ffordd gydnabyddedig o gael gafael ar gymorth busnes a gefnogir gan Lywodraeth Cymru (cyhoeddus/preifat).
- Datblygu rhwydwaith o 'Siopau Un Stop' i ficro-fusnesau dderbyn cymorth uniongyrchol/anuniongyrchol ledled Cymru.
- Ehangu ac ailgyfeirio'r Gwasanaeth Canolfannau Rhanbarthol presennol i greu Siop Un Stop i ficro-fusnesau yng Nghymru.

***Blaenoriaeth: Mynediad at Gyllid***

---

Ar hyn o bryd mae yna gynigion cyllid o bob math ar gael i ficro-fusnesau yng Nghymru; fodd bynnag, mae'n gallu bod yn anodd cael gafael ar y cyllid ei hun.

Nododd 46 y cant o ficro-fusnesau lif arian fel un o'r ffactorau sy'n rhwystr i lwyddiant eu busnes yn Arolwg Omnibws Hydref 2011 o Fusnesau, a nododd 25 y cant fod cael gafael ar y cyllid ei hun yn rhwystr.

---

Mae'r ymchwil llenyddiaeth yn dynodi bod angen cyllid penodol i ariannu dyledion, a hynny ar gyfradd resymol, i sicrhau micro-fusnesau hyfyw. Yr hyn sydd ei angen yw ffordd o ryddhau cyllid i ariannu dyledion drwy osgoi risgiau gan fanteisio ar arbenigedd y diwydiant, a'i sianelu i wella sylfaen wybodaeth darparwyr benthyciadau, ac ysgogi'r farchnad anffurfiol. Ymhlith yr opsiynau i fynd i'r afael â hyn mae:

- Defnyddio arbenigwyr y sector fel canolwyr rhwng banciau a busnesau;
- Helpu micro-fusnesau i baratoi eu hachos i gael gafael ar gyllid (gan ddefnyddio mentoriaid hefyd);
- Lobio dros ostyngiad yn y trethi ar fenthyciadau preifat i fusnesau.

Mae llif arian yn broblem fawr i ficro-fusnesau. Mae llenyddiaeth academiaidd yn awgrymu bod busnesau mawr, o bosibl, yn rhoi mwy o gredyd nag a dderbyniant. Yn y cyfamser, dangosodd adroddiad yr Arolwg o Fusnesau Bach yng Nghymru yn 2010 i 93 y cant o fentrau bach a chanolig roi credyd, ac i 74 y cant dderbyn credyd. Taliadau hwyr oedd pryder mwyaf micro-fusnesau. Efallai y gwnaiff busnesau bach (yn enwedig rhai newydd) ddefnyddio credyd i arwyddo enw da ac ymrwymiad (yn absenoldeb hanes digonol) sy'n eu gwneud yn agored i broblemau ariannol. Gall hyn ei gwneud yn anoddach cael gafael ar fathau eraill o gyllid. O ran methiant oherwydd maint y busnes, y pwynt pwysig yw mai micro-fusnesau sy'n talu fwyaf am gost cymharol rheoli dyledwyr a chredydwyr. Nododd yr Arolwg o Fusnesau Bach fod llif arian yn rhwystr i 41 y cant o gwmnïau Cymru yn 2006/07 ac i 49 y cant o gwmnïau yn 2010.

Lle mae hyn yn rhwystr i fusnesau sy'n gryf fel arall, efallai bod yna achos dros ymyrryd.

**Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Hwyluso'r ffordd i gynnig £1,000 – £20,000 i ficro-fusnesau mewn ffordd syml, yn ôl lefel y buddsoddiad sy'n ofynnol.
- Helpu micro-fusnesau i wneud cais am opsiynau cyllid eraill.

### *Blaenoriaeth: Mentora a Hyfforddiant*

Mae wynebu heriau anodd, a sefyllfaoedd a phenderfyniadau newydd yn gallu bod yn waith unig i berchennog micro-fusnes, yn enwedig pan nad ydynt am fod yn faich i'r bobl sydd agosaf atynt. Ar adegau fel hyn, felly, gall cyfaill beirniadol fod yn hanfodol. Mae'r cysyniad o fentora a hyfforddi micro-fusnesau yn bwysig, lle caiff rhywun ei baru â rhywun o gefndir tebyg neu sy'n wynebu heriau tebyg er mwyn cael cyfarwyddyd, trafod amcanion ac asesu opsiynau.

---

Mynegwyd diddordeb yn y cysyniad o fentora busnesau yng Nghymru ers rhai blynyddoedd. Yn hanesyddol, mae rhaglenni am ddim a rhai y mae'n rhaid talu amdanynt wedi bod ar gael. Ar hyn o bryd, mae rhai sefydliadau yn cynnig cymorth mentora i fusnesau hen a newydd, ond nid oes yna raglen gydgysylltiedig i ficro-fusnesau ar lefel Cymru gyfan.

Roedd y Grŵp yn teimlo'n gryf bod micro-fusnesau sy'n cael eu mentora a'u hyfforddi ar adegau critigol yn fwy tebygol o lwyddo, bod yn fwy cynaliadwy a goroesi yn y dyfodol.

**Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Ddatblygu cynllun mentora a hyfforddi ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cael cymorth gan y Llywodraeth, i helpu micro-fusnesau.

### *Blaenoriaeth: Caffael o fewn y Sector Cyhoeddus*

---

Mae caffael wedi bod yn fater allweddol i ficro-fusnesau, ac mae llawer yn teimlo mai busnesau mwy sydd ar eu helw fwyaf ar y rheoliadau a'r prosesau'n ymwneud â chaffael, gan adael micro-fusnesau yn stryffaglu i ennill contractau pwysig.

Yn Arolwg Omnibws Hydref 2011 o Fusnesau, nododd 9 y cant (heb eu cymell) mai cymorth i ennill mwy o gontractau/cwsmeriaid fyddai'r help mwyaf i'w busnes, a nododd 49 y cant mai cystadleuaeth yn y farchnad oedd y prif rwystr i lwyddiant eu busnes. Mae busnes yn elwa'n fwy ar gontractau newydd nag ar grantiau.

Derbyniodd y Grŵp adborth yn nodi nad oedd rhai micro-fusnesau wedi gallu cystadlu'n effeithiol am gontractau'r sector cyhoeddus, y gwahaniaethau mawr ym mhrosesau caffael y sector cyhoeddus a'r hyn sy'n ofynnol yn y broses gaffael. Mae hyn yn wastraff amser, ymdrech ac arian annerbyniol i'r busnesau eu hunain a'r staff o fewn y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â'r gwaith.

Ac mae'r ffaith bod y sector cyhoeddus yn gymharol fawr yng Nghymru yn golygu bod rhwystrau yn golygu colled fwy i ficro-fusnesau o ran cyfleoedd a chostau. Mae caffael, felly, yn fater allweddol i ficro-fusnesau sydd, yn rhy aml, yn colli cyfle i sicrhau contractau manteisiol.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru, yn wahanol i eraill, yn cynnwys ymrwymiad i gynaliadwyedd. I gynnal micro-fusnesau yng Nghymru, mae angen polisi pendant, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i ddefnyddio gwasanaethau lleol yn y sector cyhoeddus. Mae polisi o'r fath eisoes yn weithredol ar gyfer bwyd

---

Cymru (gweler Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol – ‘Bwyd a Diod i Gymru’ Awst 2011) ond dylai hefyd estyn i nwyddau a gwasanaethau eraill.

Er, yn amlwg, fod yn rhaid i brosesau caffael gydymffurfio â rheoliadau'r UE a rheoliadau eraill, yn rhy aml caiff y rhain eu camddehongli gan staff caffael dibrofiad. Mae yna broblemau hefyd o ran llywodraeth leol a phrifysgolion sy'n defnyddio consortia sectorau'r DU gyfan ar gyfer eu cyflenwadau, gan allgáu darparwyr lleol.

Dylai Llywodraeth Cymru hybu dull sy'n rhoi Cymru'n gyntaf, lle mae cynaliadwyedd yn faen prawf hanfodol ym mhob penderfyniad caffael. Mae pris yn bwysig ond mae gwir 'werth am arian' yn ymwneud â materion ehangach ac, yn aml, mae'r gwahaniaeth pris yn fach iawn. Oni bai bod y sector cyhoeddus yn hybu'r defnydd o wasanaethau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn euog o ddeuoliaeth lle mae'n rhoi cymorth busnes i gadw busnesau rhag methu ac atal diweithdra yng Nghymru, tra ar yr un pryd yn allforio contractau gwerthfawr sydd o fudd i gwmnïau, yr economi a staff i lefydd y tu allan i Gymru.

Gallai ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gynnwys canran y gwasanaethau a gaffaelwyd yn lleol, fel rhan o'u hadroddiad blynyddol, o fewn eu hardal ac yng Nghymru, fod yn amhrisiadwy.

Mae'r flaenoriaeth hon yn rhoi ar waith yr hyn a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr adroddiad Ymchwil i Rwystrau – Cyfleoedd Caffael i sicrhau bod y prosesau caffael cyhoeddus yn syml a bod cyfleoedd am gontractau yn agored i bawb.

**Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Symleiddio prosesau a rheoliadau caffael y sector cyhoeddus.
- Cyflwyno bil yng Nghymru ar Gaffael yn y Sector Cyhoeddus.
- Penodi Comisiwn/Comisiynydd Caffael yng Nghymru.
- Hybu caffael ar lefel leol yn y sector cyhoeddus.
- Annog micro-fusnesau i ystyried gweithredu drwy gonsortia i gaffael yn y sector cyhoeddus.
- Contractau llai i ddenu tendrau gan ficro-fusnesau.

---

## *Blaenoriaeth: Baich Rheoliadol*

---

Mae baich rheoliadol yn llethu micro-fusnesau. Mae rhai o reoliadau'r UE a'r DU yn cyfyngu ar dwf micro-fusnesau, ee TAW. Mae terfyn cofrestru TAW (£73k y flwyddyn) yn cyfyngu ar eu twf.

Nododd yr ymchwil llenyddiaeth fod llywodraethau yn peri i fusnesau bach fethu yn y farchnad oherwydd rheolau cydymffurfio, a bod dyletswydd arnynt i leihau'r costau ychwanegol yn sgil hynny. Cydnabyddir ei bod yn annheg disgwyl i ficro-fusnesau roi union symiau o'r gost ychwanegol, ac ar yr un pryd mae'n anodd i lywodraethau leihau'r baich biwrocraidaidd. Amcangyfrifodd Comisiwn yr UE fod cwmni mawr yn gwario €1 fesul gweithiwr o gymharu â chyfartaledd o €10 mewn busnes bach. Mae yna rywfaint o gyfiawnhad dros gael amrywiaeth o weithdrefnau cymorth busnes nad ydynt, o reidrwydd, yn lleihau biwrocraidiaeth ond sy'n talu am ei chostau.

Yn aml, caiff manteision rheoliadau eu hanwybyddu. Mae gwybodaeth ffurfiol a systemau adrodd yn helpu busnesau'n fawr, ac yn eu paratoi ar gyfer buddsoddwyr.

Mae llywodraethau Ewrop fel pe baent o dan bwysau cynyddol i ystyried a gweithredu polisiâu sy'n ffafrio ac yn helpu micro-fusnesau drwy reoleiddio neu ddadreoleiddio. Er y gellir dadlau bod hwn yn faes y mae gan Lywodraeth Cymru lai o ddylanwad polisi uniongyrchol neu ddylanwad deddfwriaethol, efallai ei bod yn werth nodi rhai o'r dulliau y mae llywodraethau eraill wedi'u gweithredu. Dylid cofio bod gan Lywodraeth Cymru bwerau deddfwriaethol newydd yn dilyn y refferendwm diweddar.

Yng Ngwlad yr Iâ, yn gyffredinol mae busnesau yn ystyried bod baich rheoliadol y Llywodraeth yn gymharol isel, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn tynnu sylw at Wlad yr Iâ fel lle sy'n dangos arwyddion o arfer da am fod agweddau ymarferol ar y gofynion sydd ar fentrau bach a chanolig yn syml, yn hwylus i'w gweithredu ac ar-lein.

Yn yr Arolwg Omnibws o Fusnesau, nododd 46 y cant o ficro-fusnesau mai rheoliadau oedd un o'r elfennau oedd yn rhwystro eu llwyddiant, nododd 48 y cant Drethi, TAW, y cynllun Talu Wrth Ennill, Yswiriant Gwladol, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth hefyd yn rhwystrau i lwyddiant eu busnes.

Dylid ei gwneud yn haws cael gafael ar gyllid yr UE er mwyn darparu gwasanaethau cymorth busnes, er mwyn i'r sector preifat allu cael yr arian yn haws.

Mae'r Grŵp yn nodi bod angen bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am ba reoliadau, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, a lle gallai Llywodraeth Cymru fod fwyaf effeithiol i helpu micro-fusnesau o ran y baich rheoliadol. Mae'n hollbwysig hefyd fod holl adrannau'r Llywodraeth yn ystyried effaith rheoliadau ar ficro-fusnesau.



---

### **Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Llobio dros newid mewn materion nad ydynt wedi'u datganoli – yn ogystal â rheoliadau sy'n effeithio ar ficro-fusnesau.
- Nodi pwy sy'n gyfrifol am y baich rheoliadol.
- Symleiddio rheoliadau o fewn Llywodraeth Cymru (ar draws pob adran) i'w gwneud yn haws i ficro-fusnesau gynnal a datblygu eu busnes.
- Cynnig cymorth i ficro-fusnesau y mae rheoliadau yn effeithio ar eu busnes, ee iechyd a diogelwch, cyflogaeth, trethi a deddfau cynllunio.

### *Ffactorau eraill a nodwyd gan y Grŵp*

---

Ystyriwyd ffactorau pwysig eraill gan y grŵp, ond nid oedd modd edrych ar bob agwedd arnynt, naill ai oherwydd diffyg amser neu am eu bod yn cael eu trafod gan grwpiau eraill o fewn Llywodraeth Cymru.

### **Helpu Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETS)**

A'r lefelau diweithdra fel ag y maent ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, roedd y Grŵp yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynllun cymorth cynbrentisiaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, tebyg i gynlluniau Ymddiriedolaeth y Tywysog. Nid yn unig bydd hyn o fudd i'r bobl ifanc eu hunain ond hefyd i ficro-fusnesau yng Nghymru. Dylid ystyried hefyd estyn hyn i'r boblogaeth ehangach. Nodwyd bod disgwyl i Gronfa Swyddi Cymru gael ei lansio ym mis Ebrill 2012 a fydd yn mynd beth o'r ffordd i ddelio â hyn.

### **Cymorth Arloesi**

Mae helpu micro-fusnesau i fod yn fwy arloesol er mwyn bod yn fwy cynhyrchiol a chreu mwy o swyddi fel pe bai'n thema weddol gyson a chynyddol gyffredin ym mholisiau a rhaglenni datblygu economaidd llywodraethau.

Ond mae ymchwil a gwerthusiadau rhyngwladol yn awgrymu bod angen i gymorth arloesi i ficro-fusnesau edrych y tu hwnt i ymchwil a datblygu yng nghydestun cynhyrchion a phrosesau yn unig. Dylai'r buddsoddiad hwnnw hefyd ganolbwyntio ar ddatblygu gallu'r unigolion sy'n rhedeg busnesau bach i arloesi a chroesawu heriau newydd.

---

## **Masnach Ryngwladol**

Ystyrir helpu ac annog micro-fusnesau i fasnachu'n rhyngwladol yn wasanaeth hanfodol. Bydd llawer o ficro-fusnesau yn gwneud hyn am y tro cyntaf, a gall fod yn broses ddigalon. Gallai fod yn ormod o her i lawer, er ei fod yn hollbwysig er mwyn tyfu. Mae rhai o'r farn y gellid defnyddio rhwydwaith Siopau Un Stop Cymru gyfan i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

## **Ardrethi Busnes**

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod y cymorth sydd ar gael ar ardrethi busnes yn gwneud gwahaniaeth i ficro-fusnesau; ond nid yw'r cymorth sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo a'i rannu â busnesau cymwys bob amser. Nodwyd bod adolygiad o'r polisi Ardrethi Busnes eisoes wedi'i gomisiynu, a byddai'n cymeradwyo unrhyw ganlyniadau a fyddai o fudd i ficro-fusnesau'n benodol.

## **Seilwaith Cyfathrebu**

Nodir mynediad cyflym i'r rhyngwrwyd yn glir yn yr ymchwil llenyddiaeth ac mewn mannau eraill fel un o anghenion penodol micro-fusnesau, ac efallai bod angen cymorth arbennig ar fusnesau gwledig a busnesau fferm. Mae'r llenyddiaeth yn nodi bod rhai micro-fusnesau yn gyndyn i fabwysiadu TGCh oherwydd diffyg amser ac am eu bod yn amheus ohono. Fodd bynnag, mae cryn dystiolaeth i fanteision TGCh er mwyn i fusnesau dyfu ac mae'n gysylltiedig â'r gallu i ymateb yn well i gyflenwyr a chwsmeriaid, mynediad i e-lywodraeth, ffurfioli adroddiadau ariannol ac adroddiadau rheoli eraill. Yn ogystal â phroblemau cysylltedd rhyngwrwyd a chyflymdra lawrlwytho, mae sawl man gwan yng Nghymru o ran derbyniad ffonau symudol ac nid yw rhwydweithiau trydedd a phedwaredd genhedlaeth yn llwyddiannus yma. Mae hyn eisoes yn broblem aruthrol i ficro-fusnesau gwledig, a gwaethygu wnaiff pethau wrth i dechnolegau trydedd a phedwaredd genhedlaeth ddatblygu'n gyflym a dod yn fwyfwy cyffredin fel dull o gael gafael ar wybodaeth a gwneud busnes.

## ***Cysylltiadau Eraill***

---

Nodwyd mai rôl y Llywodraeth yw creu fframwaith cyffredinol i alluogi micro-fusnesau i oroesi a thyfu yng Nghymru, drwy gydgyssylltu effeithiol rhwng adrannau a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi pryd dylid cyfeirio micro-fusnesau at gymorth priodol arall, yn benodol pan gyhaeddant eu potensial o ran twf a phan fyddant am gyflogi mwy na 9 o weithwyr.

# Meini Prawf a Fframwaith Gwerthuso

---

Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru werthuso effaith cyfarwyddyd ei pholisi ar ficro-fusnesau drwy fonitro'r pedwar dangosydd canlynol:

- Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen
- Nifer micro-fusnesau
- Trosiant a phroffidioldeb micro-fusnesau
- Cyfradd gyflogaeth micro-fusnesau

Dylid ystyried hefyd sefydlu arolwg cyson o agweddau a barn pobl o fewn micro-fusnesau yng Nghymru.

# Atodiad 1

---

## Nifer Micro-Fusnesau yng Nghymru yn ôl Awdurdod Lleol – 2011

---

<b>Awdurdod Lleol</b>	<b>Nifer y Mentrau</b>
Ynys Môn	4635
Gwynedd	12065
Conwy	7290
Sir Ddinbych	6605
Sir y Fflint	9280
Wrecsam	7205
Powys	13960
Ceredigion	8625
Sir Benfro	11650
Sir Gaerfyrddin	12545
Abertawe	12720
Castell-nedd Port Talbot	5575
Pen-y-bont ar Ogwr	7625
Bro Morgannwg	7890
Caerdydd	23660
Rhondda Cynon Taf	9165
Merthyr Tudful	2560
Caerffili	7575
Blaenau Gwent	2705
Torfaen	4260
Sir Fynwy	7755
Casnewydd	7935
<b>Cyfanswm</b>	<b>193010</b>